

The Rt Hon Amber Rudd MP  
Home Secretary  
Home Office  
2 Marsham Street  
London  
SW1P 4DF

Ein Cyf / Our Ref: AJ/HE/1619

30 Hydref/October 2017

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

Dear Home Secretary ,

**Arolwg Uniondeb Data Troseddau**

**Crime Data Integrity Inspection**

Fel sy'n ofynnol gan statud, yr wyf yn ysgrifennu atoch gyda'm sylwadau ar Arolwg Uniondeb Data Troseddau Arolygiaeth Gwasanaethau Heddlu a Thân ac Achub Ei Mawrhydi 2017.

As required by statute, I am writing to you with my comments on Her Majesty's Inspectorate of Constabulary and Fire and Rescue Services Crime Data Integrity Inspection 2017.

Yr wyf yn siomedig y daeth Arolygiaethau Ei Mawrhydi i'r casgliad fod Heddlu Gogledd Cymru "*angen gwella*" o ran ei gywirdeb wrth gofnodi troseddau. Cytunaf fod lle i wella mewn meysydd. Fodd bynnag yr wyf yn fwy hyderus fod gwaith i drin y pryderon a dynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad wedi dechrau cyn ei gyhoeddi. Mae hefyd yn bwysig nodi y nodwyd nifer o agweddau positif yn yr adroddiad na ellir eu hanwybyddu.

I am disappointed that Her Majesty's Inspectorates concluded that North Wales Police "*requires improvement*" in respect of its accuracy in crime recording. I agree that there is room for improvement in areas however I am reassured that work to address the concerns highlighted in the report had commenced prior to its publication. It is also important to note that a number of positives were identified in the report which cannot be ignored.

Roedd y cwestiwn cyntaf yn edrych ar effeithiolrwydd yr heddlu wrth gofnodi troseddau. Graddiwyd yr heddlu fel "*angen gwella*". Roedd cyfradd cofnodi troseddau cyffredinol yr heddlu yn 88.3% gydag oddeutu 5300 o droseddau wedi'u methu bob blwyddyn. I ddechrau, roeddwn yn bryderus clywed fod nifer o'r troseddau hyn a fethwyd yn cynnwys digwyddiadau domestig. Mae mynd i'r afael â thrais domestig yn flaenoriaeth o fewn fy Nghyflun Heddlu a Throedd. Fodd bynnag, mae'r heddlu yn barod wedi comisiynu adolygiad sydd ag ystod eang ynglŷn â sut y trinnir bregusrwydd. Mae wedi buddsoddi nifer sylweddol o hyfforddiant yn y Broses 'THRIVE' (Threat, Harm,

The first question looked at the force's effectiveness at recording crime and graded the force as "*requires improvement*". The force's overall crime-recording rate was 88.3% with an estimate of 5300 missed crimes each year. I was initially concerned to hear that a number of these missed crimes included domestic related incidents as tackling domestic violence is a priority within my Police and Crime Plan. However, the force has already commissioned a wide ranging review of how vulnerability is dealt with and have invested a considerable amount of training on the 'THRIVE' (Threat, Harm, Risk, Investigation, Vulnerability, Engagement) Process.

Risk, Investigation, Vulnerability, Engagement).

Yr wyf yn hyderus fod yr holl droseddau a fethwyd a nodwyd yn ystod yr arolwg wedi cael eu harolygu gan yr heddlu. Arolygwyd yr holl fesurau diogelu angenrheidiol gan yr Uned Gwarchod Pobl Fregus. Yr wyf yn fodlon fod yr holl droseddwyr a nodwyd o fewn y troseddau a fethwyd hyn wedi derbyn y cymorth a'r mynediad i'r gwasanaethau yr oeddent eu hangen.

Yr wyf yn falch y canmolwyd y cywirdeb wrth gofnodi troseddau rhywiol gan yr arolygiaeth a nododd y gwelliannau a wnaed gan yr heddlu ers arolwg 2014. Cydnabuwyd fod cyflwyno aseswr ymroddedig i drin holl droseddau rhywiol wedi gweld gwelliannau a chysondeb cynyddol gyda 96.9% o gyfradd cydymffurfio. Mae'r cywirdeb wrth gofnodi troseddau rhywiol yn ffactor pwysig wrth gynyddu hyder y cyhoedd yn Heddlu Gogledd Cymru. Fel un o'm blaenorriaethau yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd yr wyf yn anelu cynyddu adrodd am gam-drin rhywiol a chynyddu'r nifer o dramgyddwyr a ddwynwyd o flaen eu gwell.

Canolbwytiodd yr ail gwestiwn ar ba mor effeithlon yw systemau a phrosesau'r heddlu wrth gynorthwyo cofnodi troseddau cywir, a arweiniodd at radd "da" i Heddlu Gogledd Cymru. Yr wyf yn fodlon fod yr heddlu yn gwneud cynnydd wrth sicrhau fod atgyfeiriadau gan asiantaethau allanol i gyd wedi arwain at drosedd yn cael ei gofnodi.

Mae cofnodi Caethwasiaeth Fodern wedi'i ganmol gan yr arolygiaeth gan fod y 18 troseddau caethwasiaeth fodern a hysbyswyd amdanyst wedi cael eu cofnodi'n gywir gan yr heddlu. Gwnaeth yr arolygiaeth hefyd gydnabod gweithred ledled yr heddlu yn erbyn caethwasiaeth fodern gyda phenodi SCCH ymroddedig a chydlynnydd dioddefwyr i gynorthwyo dioddefwyr

I am reassured that all of the missed crimes identified during the inspection have been reviewed by the force and all that required safeguarding measures were reviewed by the Protecting Vulnerable People Unit. I am satisfied that all of the victims identified within these missed crimes did receive the support and access to services that they required.

I am pleased that the accuracy in the crime recording of sexual offences was commended by the inspectorate who identified the improvements made by the force since the 2014 inspection. It was recognised that the introduction of a dedicated assessor to deal with all sexual offences has seen improvements and increased consistency with a 96.9% compliance rate. The accuracy in recording sexual offences is an important factor in increasing the public's confidence in North Wales Police. As one of my priorities in my Police and Crime Plan I aim to increase reporting of sexual abuse and - increase the number of perpetrators brought to justice.

The second question focussed on how efficient are the force's systems and processes in supporting accurate crime recording, which resulted in a "good" grading for North Wales Police. I am satisfied that the force are making progress in ensuring that referrals made from external agencies all resulted in a crime being recorded.

The recording of Modern Slavery has been commended by the inspectorate as all 18 modern slavery crimes reported had been recorded correctly by the force. The inspectorate also acknowledged the force wide action against modern slavery with the appointment of a dedicated PCSO and victim coordinator to support the victims of modern slavery.

caethwasiaeth fodern.

Cydnabu'r arolygiaeth welliant yr heddlu yng nghywiro cansladau troseddau ers yr arolwg blaenorol. Nododd hyn anghysondebau rhwng y Gwneuthurwyr Penderfyniadau Ymroddedig. O ganlyniad, cyflwynodd yr heddlu Wneuthurwr Penderfyniadau Ymroddedig i drin cansladau troseddau. Mae hyn wedi rhoi cysondeb mewn cansladau troseddau a chyfradd gywirdeb well i'r heddlu.

Yr wyf yn bryderus o ran amseroldeb cofnodi troseddau gan y gall achosi oedi wrth gyflwyno gwasanaethau dioddefwyr. Dangosodd yr arolwg fod yr heddlu'n cofnodi troseddau o fewn 40 awr ar gyfartaledd yn hytrach na 24 awr a ddatganwyd o fewn Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref. Yr wyf yn ymwybodol fod yr heddlu'n gwneud cynnydd mewn ymgais i drin y broblem hon a chanfod prosesa newydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Gwnaf barhau i fonitro'r heddlu ar ei gynnydd wrth gyrraedd y targed hwn drwy fy nghynrychiolydd yn y Bwrdd Cofnodi Troseddau.

Canolbwytiodd y cwestiwn olaf ar ba mor dda mae'r heddlu'n arddangos arweinyddiaeth a diwylliant sy'n angenreidiol i fodloni'r safonau cenedlaethol ar gyfer cofnodi troseddau. Yr wyf yn hynod o falch y graddiwyd Heddlu Gogledd Cymru fel "*ragorol*" am eu harweinyddiaeth a diwylliant. Mae'r heddlu'n parhau i weithio'n galed er mwyn sicrhau fod y dioddefwyr wedi'u gosod ar flaen y penderfyniadau cofnodi troseddau. Mae nifer o newidiadau wedi'u gweithredu ers yr arolwg blaenorol 2014 i gymhell a chyflwyno gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i bobl Gogledd Cymru.

Yr wyf yn cydnabod fod meysydd i'w gwella. Ond yr wyf yn hyderus fod Heddlu Gogledd Cymru, o dan arweiniad y Prif Gwnstabl yn ymroddedig i sicrhau fod dioddefwyr wrth galon popeth a wnawn. Fel

The inspectorate recognised the force's improvement in the accuracy of crime cancellations since the previous inspection, which identified inconsistencies between the Dedicated Decision Makers. As a result the force introduced a single Dedicated Decision Maker to deal with crime cancellations which has provided the force with consistency in crime cancellations and an improved accuracy rate.

I am concerned regarding the timeliness of crime recording as it may cause a delay in the delivery of victim's services. The inspection showed that the force is recording crimes on average within 40 hours instead of 24 hours stated within the Home Office Counting Rules. I am aware that the force is making progress in an attempt to address this issue and find new processes to ensure compliance. I will continue to monitor the force on their progress in reaching this target via my representative at the Crime Recording Board.


The final question focussed on how well the force demonstrates leadership and culture necessary to meet the national standards for crime recording. I am extremely pleased that North Wales Police were graded as "*outstanding*" for their leadership and culture. The force continues to work hard to ensure that the victim is placed at the forefront of the crime recording decisions. There have been a number of changes implemented since the previous inspection in 2014 to continue to drive and deliver an effective and efficient service to the people of North Wales.

I acknowledge that there are areas for improvement but am reassured that North Wales Police, led by the Chief Constable are committed to ensuring that victims are at the heart of everything they do. As the

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, yr wyf yn parhau yn llawn edmygedd o'r swyddogion a'r staff. Yr wyf yn llawn edmygedd o'u hymroddiad i ddioddefwyr yn ddyddiol er y galwadau a roddir arnynt mewn cyfnodau o lymder a delwedd newidiol plismona. Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i ymateb i ganfyddiadau'r Arolwg.

Police and Crime Commissioner for North Wales I continue to be impressed by the Officers and staff and their commitment to victims on a daily basis in spite of the demands placed upon them in times of austerity and the changing face of Policing and I am grateful for the opportunity to respond to the Inspection findings.

Yn gywir Yours sincerely



Arfon Jones  
Comisiynydd Heddlu / Police Commissioner

Copi:

Mark Polin, Prif Gwnstabl  
Wendy Williams, Arolygiaeth Heddluoedd EM,  
Cymru a Rhanbarth Gorllewin Lloegr

Copy:

Mark Polin, Chief Constable  
Wendy Williams, HM Inspectorate of Constabulary,  
Wales and the Western Region